# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cofnodion (SJR(2)-01-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 12 Ionawr 2006
### Amser y cyfarfod: 9.30am – 11.55am
### Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janice Gregory (Cadeirydd) | Ogwr |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gwyr |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Laura Anne Jones | Dwyrain De Cymru |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Sandy Mewies | Delyn |
| Leanne Wood | Canol De Cymru |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Emyr Roberts | Cyfarwyddwr yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio |
| Linda Whittaker | Cyfarwyddwr Tai |
| Paul Cook | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Trish Fretton | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |

| | |
|---|---|
| Jeff Childs | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Hugh Gardner | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Jane Andrews | Yr Uned Diogelwch Cymunedol |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod

1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

1.3 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant

1.4 Bydd cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael

1.5 Cyfeiriodd y Cadeirydd at ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar Fasnachu mewn Pobl. Cytunodd yr Aelodau i ystyried y mater yn y cyfarfod nesaf a darparu adborth i'r Swyddfa Gartref.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Papurau: SJR(2)-17-05 (min)

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2005

## Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog

Papur: SJR(2)-01-06(p.1) Atodiad 1, 2, A

Camau i'w cymryd

Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn dilyn cyfarfod nesaf Gweithgor

Cyllid Ailstrwythuro'r Heddlu

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y wybodaeth lafar ddiweddaraf a roddwyd i'r Pwyllgor yn cynnwys manylion y costau DRC a ariennir drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Refeniw Diogelwch Tân Cymunedol

Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau'r cyd-weithgor rhwng y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cytunodd y Gweinidog i gynnwys nodyn yn ei hadroddiad ysgrifenedig ar y casgliadau o ran dyfodol y Gronfa Adfywio Ffisegol

Y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am y Pecyn Gwybodaeth am Eiddo

Cytunodd y Gweinidog i rannu'r nodyn â'r Pwyllgor ar gyllid asedau nas defnyddiwyd ar gyfer prosiectau menter cymdeithasol yng Nghymru

Y Gweinidog i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu nodyn i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r seminar "Rhoi Cymunedau'n Gyntaf - Tawelu Ofnau Cymunedau yng Nghymru"

Cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu nodyn ar yr agenda Parchu Eraill a'r ddeddfwriaeth yr effeithir arni gan yr agenda

Y Gweinidog i adrodd ar drefniadau cyhoeddusrwydd o ran cyfrifoldebau Gwarchod y Gymdogaeth a Phlismona Cymunedol

Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor ar y gwaith a wnaed i gefnogi dioddefwyr cam-drin yn y cartref gan Awdurdodau Lleol ac amlygu arfer da yn y maes hwn

Cytunodd y Gweinidog i gyflwyno papur ar wahân i'r Pwyllgor ar dlodi tanwydd a grwpiau agored i niwed

Cytunodd y Gweinidog i sicrhau bod yr ymchwil ar ddigartrefedd ar gael i'r Pwyllgor yn ei hadroddiad nesaf

Cytunodd y Gweinidog i godi'r mater o ohirio'r Cynllun "Hawl i Brynu" gyda Swyddfa Cymru

Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd y Strategaeth Digartrefedd a chartrefi anaddas yn y Sector Preifat

Fel rhan o bapur diweddaru HEES a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 9 Chwefror, cytunodd y Gweinidog i gynnwys nodyn manwl ar faterion yn cynnwys ffynonellau tanwydd, ynni adnewyddadwy a goblygiadau cynllunio

Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am faterion yn ymwneud â deddfwriaeth ar ddigartrefedd yng Nghonwy

Cytunodd y Gweinidog i gynnwys nodyn ar faterion yn ymwneud â chyflenwad nwy yng Ngogledd Cymru o ran HEES

Y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar Fire Link yn dilyn trafodaethau gyda'r Awdurdodau Tân

Fel rhan o'r papur ar Gynllun Tai Fforddiadwy a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 9 Chwefror, cytunodd y Gweinidog i gynnwys nodyn ar Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol

Y Gweinidog i ddarparu nodyn ar ei hymateb i ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar ad-drefnu'r Gwasanaeth Prawf

## Eitem 4: Dyfarniad ar Gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai (Cymru) 2006/07 a Dyfarniad Cyffredinol o Gredyd Eitem 8 a Debyd Eitem 8 (Cymru) 2006/07

Papur: SJR(2)-01-06(p.2)

Nododd y Pwyllgor y papur

## Eitem 5: Is-ddeddfwriaeth

Papur: SJR(2)-01-06(p.3) Atodiad 1, 2

Nodwyd y papur

## Eitem 6: Menter Gymdeithasol

Papur: SJR(2)-01-06(p.4)

Camau i'w cymryd

Cytunodd y Gweinidog fod angen i'r Cynllun Gweithredu Strategaeth Menter Gymdeithasol fynd i'r afael â'r mater o drosglwyddo asedau fel blaenoriaeth yn arbennig o ran agenda asedau Llywodraeth Leol

Y Gweinidog i ysgrifennu at Andrew Davies ar y strategaeth Menter Gymdeithasol a defnyddio

Cronfeydd Strwythurol Ewrop i'w hyrwyddo

## Eitem 7: Strategaeth Cam-drin yn y Cartref

Papur: SJR(2)-01-06(p.5) Atodiad 1

Camau i'w cymryd

Y Gweinidog i ddarparu adroddiad ar y gwerthusiad o'r "Llinell Gymorth" Cam-drin yn y Cartref, yn cynnwys dadansoddiad o'r ffigurau ar gyfer darpariaeth Gymraeg

Cytunodd y Gweinidog i ystyried y cymorth sydd ar gael i droseddwyr pan gânt eu rhyddhau i'r Gymuned fel rhan o'r Strategaeth Cam-drin yn y Cartref

Cytunodd y Gweinidog i edrych ar y data ystadegol sydd ar gael ar gyfer gwerthuso'r Strategaeth Cam-drin yn y Cartref

Cytunodd y Gweinidog i ofyn i'r Gweithgor Lleoedd mewn Llochesau i ystyried y ddarpariaeth o wasanaethau cynghori a nifer y lleoedd sydd ar gael mewn llochesau

## Eitem 8: Tai ar gyfer Pobl Hyn

Papur: SJR(2)-01-06(p.6) Atodiad 1

Camau i'w cymryd

Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y grant cyfleusterau i'r anabl mewn cysylltiad â gwasanaethau gofal a thrwsio a chynlluniau ymateb cyflym, yn cynnwys materion yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o'r grant

Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am argymhellion yr Adolygiad Tai ar gyfer Pobl Hyn, 12-14, materion yn ymwneud â rhyddhau ecwiti